



Cais i drosglwyddo trwydded safle i'w ganiatáu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003

DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU CANLYNOL GYNTAF

Cyn cwblhau'r ffurflen hon dylech ddarllen y nodiadau arweiniad ar ddiwedd y ffurflen. Os ydych yn cwblhau'r ffurflen â llaw dylech ysgrifennu'n eglur mewn priflythrennau. Ym mhob achos dylech sicrhau bod eich atebion y tu mewn i'r blychau ac wedi eu hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Dylech ddefnyddio taflenni ychwanegol os oes angen. Os dymunwch gallwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion.

Rwyf/

Rydym

(Noder enw/enwau'r ymgeisydd)

yn gwneud cais i drosglwyddo'r drwydded safle a ddisgrifir isod o dan adran 42 Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer y safle a ddisgrifir yn Rhan 1 isod

Rhif cofrestru'r safle

Rhan 1 – Manylion y safle

Cyfeiriad post y safle, neu, os nad oes un, cyfeirnod map arolwg ordnans neu ddisgrifiad

Tref bost

Cod post

Rhif ffôn y safle (os oes un)

Rhowch ddisgrifiad cryno o'r safle

Enw deiliad presennol y drwydded safle

Rhan 2 – Manylion yr ymgeisydd

Ym mha swyddogaeth yr ydych yn gwneud cais i drosglwyddo'r drwydded safle i chi?

- | | Ticiwch ydwyf |
|--|--|
| a) unigolyn neu unigolion* | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (A) |
| b) rhywun ac eithrio unigolyn * | |
| i. fel cwmni cyfyngedig | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| ii. fel partneriaeth | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| iii. fel cymdeithas anghorfforedig neu | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| iv. arall (er enghraifft corfforaeth statudol) | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| c) clwb cydnabyddedig | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| d) elusen | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| e) perchennog sefydliad addysgol | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| f) corff gwasanaeth iechyd | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| g) unigolyn a gofrestrwyd o dan Rhan 2
Deddf Safonau Gofal 2000 (c14) yng
nghyswllt ysbyty annibynnol yng Nghymru | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| ga) unigolyn a gofrestrwyd o dan Bennod 2 o
Ran 1 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol
2008 yng nghyswllt gweithgaredd rheoledig
(o fewn ystyr y Rhan honno) mewn ysbyty
annibynnol yn Lloegr | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |
| h) prif swyddog heddlu gwasanaeth heddlu
yng Nghymru a Lloegr | <input type="checkbox"/> cwblhewch adran (B) |

*Os ydych yn gwneud cais fel unigolyn a ddisgrifir yn (a) neu (b) a wnewch chi gadarnhau:

- | | Ticiwch ydwyf |
|---|--------------------------|
| ▪ Rwyf yn cynnal neu yn bwriadu cynnal busnes sy'n cynnwys
defnyddio'r safle ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy; neu | <input type="checkbox"/> |
| ▪ Rwyf yn gwneud y cais yn unol â | |
| • swyddogaeth statudol neu | <input type="checkbox"/> |
| • swyddogaeth a gyflawnir yn rhinwedd uchelfraint Ei Mawrhydi | <input type="checkbox"/> |

(A) YMGEISWYR UNIGOL (cwblhewch fel sy'n berthnasol)

Mr Mrs Miss Ms Teitl arall
(er enghraifft, Parch)

Cyfenw

Enwau cyntaf

Ticiwch ydwyf

**Dyddiad geni
Cenedligrwydd**

Yr yf yn 18 oed neu'n hŷn

**Cyfeiriad
cartref
presennol os
yw'n wahanol
i gyfeiriad yr
eiddo/busnes**

Tref bost

Cod post

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

**Cyfeiriad e-bost
(dewisol)**

AIL YMGEISYDD UNIGOL (cwblhewch fel sy'n berthnasol)

Mr Mrs Miss Ms Teitl arall
(er enghraifft, Parch)

Cyfenw

Enwau cyntaf

Ticiwch ydwyf

**Dyddiad geni
Cenedligrwydd**

Yr wyf yn 18 oed

**Cyfeiriad
cartref
presennol os
yw'n wahanol
i gyfeiriad yr
eiddo/busnes**

Tref bost

Cod post

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost
(dewisol)

(B) YMGEISWYR ERAILL

Nodwch enw a chyfeiriad cofrestredig yr ymgeisydd yn llawn. Lle mae hynny'n briodol nodwch unrhyw rif cofrestredig. Yn achos partneriaeth neu fenter arall ar y cyd (ac eithrio corff corfforedig), nodwch enw a chyfeiriad pob parti perthnasol.

Enw
Cyfeiriad
Rhif cofrestredig (lle mae hynny'n berthnasol)
Disgrifiad o'r ymgeisydd (er enghraifft partneriaeth, cwmni, cymdeithas anghorfforedig ayb)
Rhif ffôn (os oes un)
Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Rhan 3

Ticiwch ydwyf

Ai chi yw deiliad y drwydded safle o dan hysbysiad awdurdod dros dro?

A ydych yn dymuno i'r trosglwyddiad ddod i rym ar unwaith?

Os nad ydych pryd hoffech i'r trosglwyddiad ddod i rym?

Dydd Mis Blwydd
 yn

--	--	--	--	--	--	--	--

Ticiwch ydwyf

Yr wyf wedi amgáu'r ffurflen ganiatâd wedi ei llofnodi gan ddeiliad presennol y
drwydded safle

Os nad ydych wedi amgáu'r ffurflen ganiatâd a nodwyd uchod rhowch resymau am hynny. Pa gamau a gymerwyd gennych i geisio cael caniatâd?

Ticiwch ydwyf

Os caniateir y cais hwn byddaf mewn sefyllfa i ddefnyddio'r safle yn ystod
cyfnod y cais ar gyfer gweithgaredd neu weithgareddau trwyddedadwy a
awdurdodwyd gan y drwydded (gweler adran 43 Deddf Trwyddedu 2003)

Ticiwch ydwyf

Yr wyf wedi amgáu'r drwydded safle

Os nad ydych wedi amgáu'r drwydded safle a nodwyd uchod rhowch resymau am hynny.

- Yr wyf wedi talu neu amgáu taliad o'r ffi
- Yr wyf wedi amgáu'r ffurflen ganiatâd wedi ei llofnodi gan ddeiliad presennol y drwydded safle neu fy natganiad yn esbonio pam nad wyf wedi ei chynnwys
- Yr wyf wedi amgáu'r drwydded safle neu ran berthnasol ohoni neu esboniad
- Yr wyf wedi anfon copi o'r cais hwn i'r prif swyddog heddlu heddiw
- Yr wyf yn deall y bydd fy nghais yn cael ei gwrthod os na fyddaf yn cydymffurfio â'r gofynion uchod
- Rwyf wedi anfon copi o'r ffurflen hon at Adran Gorfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref

MAE'N DROSEDD, O DAN ADRAN 158 O DDEDDF TRWYDDEDU 2003, I WNEUD DATGANIAD ANWIR O RAN NEU MEWN PERTHYNAS Â'R CAIS HWN. GALLAI'R RHEINI SY'N RHOI DATGANIAD ANWIR FOD YN AGORED, AR GOLLFARN DDIANNOD, I DDIRWY O UNRHYW SWM

MAE'N DROSEDD O DAN ADRAN 24B O DDEDDF MEWNFUDO 1971 I UNIGOLYN WEITHIO PAN FYDD YN GWYBOD, NEU FOD GANDDO ACHOS RHESYMOL DROS GREDU, EI FOD WEDI'I WAHARDD RHAG GWNEUD HYNNY OHERWYDD EI STATWS MEWNFUDO. BYDD Y RHEINI SY'N CYFLOGI OEDOLYN SYDD HEB GANIATÂD NEU SY'N DESTUN AMODAU O RAN CYFLOGAETH YN AGORED I GOSB SIFIL O DAN ADRAN 15 DEDDF MEWNFUDO, LLOCHES A CHENEDLIGRWYDD 2006 AC YN UNOL AG ADRAN 21 O'R UN DDEDDF, YN CYFLAWNI TROSEDD PAN FYDDANT YN GWNEUD HYNNY GAN WYBOD, NEU FOD GANDDYNT ACHOS RHESYMOL DROS GREDU, BOD Y GWEITHIWR WEDI'I WAHARDD.

Rwy'n deall nad oes hawl gennyf gael trwydded os nad oes gennyf yr hawl i fyw a gweithio yn y DU (neu os wyf yn destun amod sy'n fy atal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedig) a bydd fy nhrwydded yn annilys os bydd fy hawl i fyw a gweithio yn y DU yn darfod (a fyddech cystal â darllen nodyn cyfarwyddyd 2).

MAE'N DROSEDD I WNEUD DATGANIAD GAU YNG NGHYSWLLT YR HYSBYSIAD HWN GALLAI GWNEUD HYNNY ARWAIN AT ERLYNIAD A DIRWY HYD AT LEFEL 5 AR Y RADDFA SAFONOL, O DAN ADRAN 158 DEDDF TRWYDDEDU 2003

Rhan 4 – Llofnodion (darllenwch nodyn arweiniad 2)

Llofnod yr ymgeisydd neu gyfreithiwr yr ymgeisydd neu asiant awdurdodedig dilys arall (gweler nodyn arweiniad 3). **Os yn arwyddo ar ran ymgeisydd dylid nodi yn rhinwedd pa swyddogaeth y gwneir hynny.**

Arwyddwyd

.....

Dyddiad

.....

Swyddogaeth

.....

Ar gyfer hysbyswyr ar y cyd llofnod yr 2^{il} ymgeisydd, cyfreithwyr yr 2^{il} ymgeisydd neu asiant awdurdodedig arall (darllenwch nodyn arweiniad 4). Os yn arwyddo ar ran ymgeisydd dylid nodi yn rhinwedd pa swyddogaeth y gwneir hynny.

Arwyddwyd

.....

Dyddiad

.....

Swyddogaeth

.....

Enw cyswllt (lle na roddwyd yn flaenorol) a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn (darllenwch nodyn arweiniad 5)

Tref bost

Cod post

Rhif ffôn (os oes un)

Nodwch eich cyfeiriad e-bost pe bai'n well gennych i ni ohebu â chi trwy e-bost (dewisol)

Nodiadau Arweiniad

1. Disgrifiwch y safle. Er enghraifft y math o saflee ydyw, ei sefyllfa gyffredinol a'i gosodiad ac unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu.
2. **Hawl i weithio/statws mewnfudo ar gyfer ymgeiswyr unigol a cheisiadau gan bartneriaethau nad ydynt yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig:**

Ni fydd trwydded bersonol yn cael ei roi i unigolyn neu unigolyn sy'n rhan o bartneriaeth sy'n byw yn y DU sydd:

- heb hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig; neu'n
- sy'n destun amod sy'n ei atal ef neu hi rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynnal gweithgaredd trwyddedig.

Bydd unrhyw drwydded safle sy'n cael ei roi yn dilyn cais ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny yn annyls os bydd hawl y deiliad i weithio yn y DU yn darfod.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU ac nad ydynt yn destun amod sy'n eu hatal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedig. Gallant wneud hyn drwy ddarparu copïau neu gopïau wedi'u sganio o'r dogfennau canlynol gyda'r cais hwn (nid oes angen ardystio'r copïau).

Dogfennau sy'n dangos yr hawl i weithio yn y DU

- Pasbort cyfredol neu basbort sydd wedi dirwyn i ben sy'n dangos bod y deiliad, neu unigolyn a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd o'r DU a'r Trefedigaethau sydd â hawl i breswyllo yn y DU [sylwer isod pa rannau o'r pasbort y dylid eu copïo].
- Pasbort cyfredol neu basbort sydd wedi dirwyn i ben neu gerdyn adnabod cenedlaethol sy'n dangos bod y deiliad, neu unigolyn a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
- Tystysgrif Cofrestru neu Ddogfen yn Ardystio Preswyliaid Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
- Cerdyn Preswyllo Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Hawlen Preswyllo Biometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos bod caniatâd gan yr unigolyn a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.
- Pasbort cyfredol a gymeradwywyd i ddangos bod y deiliad wedi'i eithrio o reolaeth mewnfudo, â chaniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, â hawl i breswyllo yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.

- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag ardystiad sy'n dangos bod caniatâd gan yr unigolyn a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu **lawn** a roddwyd yn y DU sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni neu rieni mabwysiadol y deiliad, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu a roddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif cofrestru neu frodori fel dinesydd Prydeinig, **ynghyd â** dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Pasbort **cyfredol** i ddangos bod hawl gan y deiliad i aros yn y DU a bod hawl ganddo i weithio ar hyn o bryd ac nad yw'n destun amod sy'n ei atal rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â gweithgaredd trwyddedig.
- Dogfen Mewnfudo Biometrig **gyfredol** (Hawlen Preswyllo Biometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos y gall yr unigolyn a enwir aros ar hyn o bryd yn y DU a bod ganddo ganiatâd i weithio o ran ymwneud â gweithgaredd trwyddedig.
- Cerdyn Preswyllo **cyfredol** a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i unigolyn nad yw'n un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ond sy'n aelod o deulu gwladolyn o'r fath neu sydd â hawl i breswyllo deilliannol.
- Dogfen Statws Mewnfudo **gyfredol** sy'n cynnwys ffotograff a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gyda chymeradwyaeth ddilys sy'n dangos y gall yr unigolyn a enwir aros yn y DU, a bod ganddo ganiatâd i weithio ac nid yw'n destun amod sy'n atal y deiliad rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud a gweithgaredd trwyddedig, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- Tystysgrif Cais, **llai na 6 mis oed**, a roddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan reoliad 17(3) neu 18A(2) o Reoliadau [Ardal Economaidd Ewropeaidd] Mewnfudo 2006, i unigolyn nad yw'n un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd

Ewropeaidd ond sy'n aelod o deulu gwladolyn o'r fath neu sydd â hawl i breswyllo deilliannol.

- Tystiolaeth resymol bod gan yr unigolyn gais ar waith gyda'r Swyddfa Gartref i amrywio ei hawl i fod yn y DU megis llythyr cydnabod gan y Swyddfa Gartref neu dystiolaeth o bostio, neu dystiolaeth resymol bod gan yr unigolyn apêl neu adolygiad gweinyddol dan ystyriaeth ynghylch penderfyniad mewnfudo, megis rhif cyfeirnod ar gyfer yr apêl neu'r adolygiad gweinyddol.
- Tystiolaeth bod gan unigolyn nad yw'n un o wladolion y Swistir neu wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ond sydd yn aelod o deulu gwladolyn o'r fath neu sydd â hawl i breswyllo deilliannol o ran defnyddio hawlio cytuniad yn y DU gan gynnwys:
 - tystiolaeth o hunaniaeth yr ymgeisydd ei hun – megis pasbort,
 - tystiolaeth o'i berthynas ag aelod o deulu un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd – e.e. tystysgrif priodas, tystysgrif partneriaeth sifil neu dystysgrif geni, a
 - evidence that the European Economic Area national has a right of permanent residence in the UK or is one of the following if they have been in the UK for more than 3 months:
 - (i) yn gweithio e.e. contract cyflogaeth, slipiau cyflog, llythyr gan gyflogwr,
 - (ii) yn hunangyflogedig e.e. contractau, anfonebau, neu gyfrifon archwiliedig gyda banc,
 - (iii) yn astudio e.e. llythyr gan ysgol, coleg neu brifysgol a thystiolaeth o gyllid digonol; neu
 - (iv) hunangynhaliol e.e. cyfriflenni banc.

Mae'n rhaid i aelodau gwladolion un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n astudio neu sy'n annibynnol yn ariannol hefyd ddarparu tystiolaeth bod gan wladolyn un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac unrhyw aelod o'r teulu yswiriant salwch cynhwysfawr yn y DU. Gall hyn gynnwys polisi yswiriant meddygol preifat, cerdyn EHIC (Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd) neu ffurflen S1, S2 neu S3.

Ni ddylid anfon dogfennau gwreiddiol i'r awdurdodau trwyddedu. Os mai copi o basbort yw'r ddogfen a ddarperir, dylid darparu copi o'r tudalennau canlynol:-

- (i) unrhyw dudalen sy'n cynnwys manylion personol y deiliad gan gynnwys cenedligrwydd;
- (ii) unrhyw dudalen sy'n cynnwys ffotograff o'r deiliad;
- (iii) unrhyw dudalen sy'n cynnwys llofnod y deiliad;
- (iv) unrhyw dudalen sy'n cynnwys y dyddiad y daw'r pasbort i ben; ac
- (v) unrhyw dudalen sy'n cynnwys gwybodaeth am hawl y deiliad i ddod neu aros yn DU a bod hawl ganddo i weithio.

Os nad copi o'r pasbort yw'r ddogfen a ddarperir, dylid darparu copi o'r ddogfen gyfan.

Bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei wirio fel rhan o'ch cais am drwydded, gallai hyn gynnwys ein bod yn gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'n bosibl y

byddwn yn rhannu'r wybodaeth â'r Swyddfa Gartref. Ni wneir penderfyniad ynghylch eich cais hyd nes i chi gydymffurfio â'r canllaw hwn.

3. Mae'n rhaid llofnodi'r ffurflen gais.
4. Fe all asiant ymgeisydd (er enghraifft cyfreithiwr) lofnodi'r ffurflen ar ei ran ar yr amod fod ganddo'r awdurdod i wneud hynny.
5. Lle ceir mwy nag un ymgeisydd, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr neu eu hasiantiaid perthnasol lofnodi'r ffurflen.
6. Dyma'r cyfeiriad a ddefnyddir gennym i ohebu â chi ynglŷn â'r cais hwn.